

A yw'n ddiogel nawr?

Ers mis Medi 1991, mae'r holl waed a roddir yn y DU yn cael ei wirio am y feirws hepatitis C. Mae safonau diogelwch modern yn drylwyr ac wedi gwella'n aruthrol ers y digwyddiadau trasig sy'n destun yr Ymchwiliad.

Rydym yn dilyn canllawiau a chyngor gan bwyllgorau a chyrrff arbenigol, y mae gan lawer ohonynt gynrychiolwyr rhoddwyr neu gleifion fel aelodau. Ac rydym yn cael ein harolygu'n rheolaidd gan reoleiddwyr annibynnol.

Mae gwaith gwasanaethau gwaed y DU dros nifer o flynyddoedd yn golygu bod gan y DU un o'r gwasanaethau cyflenwi gwaed mwyaf diogel yn y byd.

Mae pob rhoddwr gwaed yn cael ei sgrinio ar bob rhodd ac mae eu gwaed yn cael ei brofi yn ein labordai cyn iddo gael ei anfon i ysbytai. Mae gwasanaethau gwaed a diogelwch gwaed wedi cael eu trawsnewid nid yn unig o ran datblygiadau technolegol mewn profion ond hefyd yn y ffordd yr ydym yn recriwtio ac yn sicrhau bod rhoddwyr yn ddiogel i roi gwaed. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol i fonitro unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg.

Er nad yw trallwysiad gwaed, ac na fydd byth, heb risg, rydym yn hyderus, gyda gwyddoniaeth, systemau a phrosesau modern, ein bod yn llawer mwy ymatebol ac yn gweithio'n llawer cyflymach nag a wnaethom yn y gorffennol.

Cymorth Pellach

Os cawsoch drallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed cyn Medi 1991 neu os cawsoch drawsblaniad organau cyn 1992 a'ch bod yn poeni, cysylltwch â'r tîm Pryderon i drafod ymhellach.

e-bost: concerns@wales.nhs.uk neu
ffôn: 029 218 36318

Mae'r Swyddfa Pryderon ar agor ar yr adegau canlynol:

Dydd Llun a Dydd Mawrth 7.30am tan 4pm
Dydd Mercher 7:30am – 6pm
Dydd Iau a Dydd Gwener 7.30am i 4pm

Neu gallwch ysgrifennu atom ar y cyfeiriad canlynol:

Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro, Tŷ Coetir, Ffordd Maes-y-Coed,
Caerdydd CF14 4HH.

Os oes gennych chi neu eich anwylyd anhwylder gwaedu neu wedi cael anhwylder gwaedu, efallai yr hoffech gysylltu â'r tîm pwrpasol sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Hemoffilia.

Os hoffech chi, perthynas neu anwylyd gael unrhyw gymorth yn ymwneud ag unrhyw faterion a godwyd gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, cysylltwch â'r Rhwydwaith Anhwylderau Gwaedu.

e-bost:

BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk
neu ffôn: 0800 952 0055



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Gwybodaeth i gleifion



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Y prawf gwrthgyrff

Mae'r prawf gwaed gwrthgyrff yn penderfynu a ydych erioed wedi dod i gysylltiad â'r feirws hepatitis C trwy brofi am bresenoldeb gwrthgyrff i'r feirws. Mae gwrthgyrff yn cael eu cynhyrchu gan eich system imiwnedd i ymladd germau. Ni fydd y prawf yn dangos ymateb positif am rai misoedd ar ôl yr haint oherwydd bod eich corff yn cymryd amser i wneud y gwrthgyrff hyn.

Os yw'r prawf yn negatif, ond bod gennych symptomau neu efallai eich bod wedi dod i gysylltiad â hepatitis C, efallai y cewch eich cynghori i gael y prawf eto.

Mae prawf positif yn dangos eich bod wedi cael eich heintio ar ryw adeg. Nid yw o reidrwydd yn golygu eich bod wedi'ch heintio ar hyn o bryd, oherwydd efallai eich bod wedi clirio'r feirws o'ch corff ers hynny.

Yr unig ffordd o ddweud a ydych wedi'ch heintio ar hyn o bryd yw cael ail prawf gwaed, o'r enw prawf PCR.

Y Prawf PCR

Mae'r prawf gwaed PCR yn gwirio os yw'r feirws yn dal i fod yn bresennol trwy ganfod a yw'n atgynhyrchu y tu mewn i'ch corff.


Mae prawf positif yn golygu nad yw'ch corff wedi ymladd y feirws ac rydych wedi'ch heintio ar hyn o bryd.

Cael prawf ar gyfer hepatitis C

Gellir cynnal prawf gwaed i weld a oes gennych yr haint. Gwneir hyn trwy brawf pigiad bys.

Gallwch hefyd gael prawf cartref am ddim gan ddefnyddio'r ddolen isod:

Ewch i: phw.referralportal.co.uk neu sganiwch y cod QR:



Gall diagnosis cynnar a thriniaeth helpu i atal neu gyfyngu ar unrhyw ddifrod i'ch afu a helpu i sicrhau nad yw'r haint yn cael ei drosglwyddo i bobl eraill.

Beth ydyw?

Mae'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn ymchwiliad cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau pan roddwyd gwaed a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig yn y 1970au a'r 1980au.

Ar bwy yr oedd yn effeithio/ar bwy y gallai effeithio?

Unrhyw un a gafodd drallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed cyn Medi 1991.

Roedd y risg o gael feirws fel hepatitis C yn isel iawn. Fodd bynnag, mae siawns fach iawn y gallai pobl fod wedi'u heintio â hepatitis C os:

- cawsoch drallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed cyn Medi 1991
- cawsoch drawsblaniad organau cyn 1992

Cyn 1992 nid oedd organau a roddwyd yn cael eu sgrinio'n rheolaidd ar gyfer hepatitis C ac mae risg fach iawn y gallai organ a roddwyd gan rywun â hepatitis C ledaenu'r haint.